| Term | Saesneg | Diffiniad | Ystyr/effaith |
|---|---|---|---|
| **Fframio** | *framing* | Maint y gwrthrych yn y llun | |
| **saethiad llydan** | *wide/very long shot* | Mae unrhyw berson yn ymddangos yn fach yn y llun | *Y lleoliad sy'n bwysig* |
| **saethiad pell** | *long shot* | Corff cyfan, o'r pen i'r sawdl | *Gallem ddechrau gweld pa fath o berson ydyw* |
| **saethiad canolig** | *mid/medium shot* | Hanner uchaf y corff | |
| **saethiad agos canolig** | *medium closeup* | O'r frest i'r pen | |
| **saethiad agos** | *closeup* | Pen ac ysgwyddau | *Y cymeriad sy'n bwysig* |
| **saethiad agos iawn** | *big closeup* | Pen yn unig | *Emosiynau cryf* |
| **saethiad eithriadol agos** | *extreme closeup* | Yr wyneb o'r llygaid i'r geg (neu'n nes) | *Emosiynau cryf*<br>*Cymeriad bygythiol* |
| **Safle'r camera** | *camera position* | Lle mae'r camera | |
| **saethiad ongl isel** | *low angle shot* | Saethiad lle mae'r camera yn isel ac yn edrych i fyny | *Cymeriad pwerus/bygythiol* |
| **saethiad ongl uchel** | *high angle shot* | Mae'r camera yn uchel ac yn edrych i lawr | *Cymeriad bach/gwan* |
| **Symudiad camera** | *camera movement* | | |
| **camera llaw** | *handheld camera* | Mae rhywun yn cario'r camera wrth ffilmio | *Cyffro* a/neu *realiti* |
| **cledru** | *tracking* | Symud y camera ei hun tuag at/neu i ffwrdd /ar draws gwrthrych, neu i ddilyn gweithrediad | |
| **tremio** | *pan* | Troi'r camera i'r ochr | |
| **gwyro** | *tilt* | Troi'r camera i fyny neu i lawr | |
| **cylchu** | *arc* | Symud y camera mewn cylch o gwmpas y gwrthrych | |
| **saethiad craen** | *crane shot* | Yn defnyddio craen i symud y camera ar draws, neu uwchben, yr hyn sy'n digwydd | |

| Term | Saesneg | Diffiniad | Ystyr/effaith |
|---|---|---|---|
| **Lens** | | | |
| **lens/saethiad ongl llydan** | *wide-angle lens/shot* | Mae lens ongl llydan yn cynnwys llawer o'r hyn sydd o flaen y camera. | *Perspectif amlwg*<br>*Rydym yn agos*<br>*Mae llawer o le*<br>*Cymeriad/lle sy'n od/doniol* |
| **lens/saethiad teleffoto** | *telephoto lens/shot* | Mae lens teleffoto yn cymryd dim ond rhan bach o'r hyn sydd o flaen y camera, fel edrych trwy delesgôp. | *Perspectif ddim yn amlwg*<br>*Rydym yn bell*<br>*Mae'r lle'n fach*<br>*Mae'r cymeriad yn teimlo'n gyfyngedig* |
| **lens swm/closio** | *zoom* | Lens sy'n amrywio o ongl llydan i deleffoto, fel bod y gwrthrych yn gallu ymddangos yn fwy neu'n llai heb i'r camera symud | |
| **swmio allan/llacio** | *zoom out* | Amrywio lens swm er mwyn pellhau o'r gwrthrych | |
| **swmio mewn/chwyddu** | *zoom in* | Amrywio lens swm er mwyn chwyddo'r gwrthrych | |
| **Dyfnder ffocws** | *depth of focus* | Faint o'r llun sydd mewn ffocws | |
| **Ffocws dwfn** | *deep focus* | Mae popeth yn y llun mewn ffocws | |
| **Ffocws bas** | *shallow focus* | Dim ond y gwrthrych sydd mewn ffocws | *Cymeriad unig*<br>*Cymeriad wedi ei ynysu o'r bobl o'i gwmpas* |

| Term | Saesneg | Diffiniad | Ystyr/effaith |
|---|---|---|---|
| **Goleuo** | *lighting* | | |
| **goleuo cynnes** | *warm lighting* | Mae'r lliwiau yn felyn, oren neu goch. | *Cysurus/diogel*<br>*Moethus*<br>*Traddodiadol*<br>*Hydref/machlud yr haul* |
| **goleuo oer** | *cold lighting* | Mae'r lliwiau'n las. | *Tristwch/unigrywdd*<br>*Modernrwydd/technoleg*<br>*Gaeaf/nos/bore cynnar* |
| **goleuo cywair isel** | *low-key lighting* | Mae'r golau yn dod o'r ochr, mae'r cysgodion yn gryf ac mae'r cefndir fel arfer yn dywyll | *Drama*<br>*Perygl*<br>*Nos* |
| **goleuo cywair uchel** | *high-key lighting* | Goleuo lle mae'r golau yn wastad ac yn llachar, heb gysgodion pendant. | *Hapus/cadarnhaol*<br>*Dydd* |
| **golau ôl** | *backlight* | Golau tu ôl i'r gwrthrych, yn creu 'halo' o'i gwmpas | *Dirgelwch*<br>*Harddwch*<br>*Nos* |

| Term | Saesneg | Diffiniad | Ystyr/effaith |
|---|---|---|---|
| **Golygu** | *editing* | Y dechneg o roi saethiadau ffilm at ei gilydd. | |
| **cyflymdra** | *pace* | Pa mor gyflym mae'r golygu yn newid o un llun i'r llall | *Golygu cyflym:*<br>• *Cyffro*<br>• *Pergyl*<br>• *Bywiogrwydd*<br>*Golygu araf:*<br>• *Ymlacio*<br>• *Tensiwn*<br>• *Diflastod* |
| **croes-dorri** | *cross-cutting* | Torri rhwng dwy olygfa sy'n digwydd mewn llefydd gwahanol ar yr un pryd | |
| **torri** | *cut* | Lle mae un llun yn newid yn syth i'r un nesaf | *Mae popeth yn y dilyniant yn digwydd mewn un cyfnod parhaol* |
| **pylu allan** | *fade out* | Lle mae'r llun yn toddi allan (fel arfer i sgrîn ddu) | |
| **pylu mewn** | *fade in* | Lle mae'r llun yn toddi mewn (fel arfer o sgrîn ddu) | *Mae pylu allan ac wedyn pylu mewn yn dangos bod cyfnod o amser wedi mynd heibio* |
| **toddi** | *dissolve* | Lle mae llun yn toddi mewn i lun arall. | *Toddi unwaith mewn dilyniant:*<br>• *mae'r stori wedi symud ymlaen rhywfaint mewn amser a gofod.*<br>*Cyfres o doddiadau:*<br>• *Mae amser yn mynd heibio*<br>• *Teimlad o gysur/ymlacio* |